Mentrau Iaith Cymru

Medi 2016

Hyfforddiant Mic:

Fel y gwyddoch mae cyllideb Mic wedi crebachu'n sylweddol eleni, y broses o geisio mynd ar ôl arian a chofrestru Mic fel Canolfan Cydnabyddedig o ran achrediadau wedi cychwyn, gobeithio bydd y ddau gam yma'n codi cymhwysedd yn y dyfodol.

Gweler rhestr isod sesiynau sydd yn mynd i ddigwydd yn bendant: os am ddod i un o'r sesiynau gofynnaf i swyddogion siarad gyda'i prif swyddog cyn cofrestru, yna llenwch y ffurflen gofrestru sydd ar y fewnrwyd a gyrru nôl i mi cyn y 6ed o Hydref. iwanhywel@mentrauiaith.cymru

Amddiffyn Plant i'r Person Penodedig:

Cwrs dau ddiwrnod, i'r person hynny sydd yn cymryd cyfrifoldeb dros Amddiffyn Plant yn y Fenter.

Diwrnod 1 yn Aberystwyth, Dydd Iau 3ydd o fis Tachwedd

Diwrnod 2 yn Aberystwyth, Dydd Mawrth 8fed o fis Tachwedd

Amddiffyn Plant i'r rhai yn gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc:

Un diwrnod yn y De, 29ain o fis Tachwedd- lleoliad i'w gadarnhau

Un diwrnod yn y Gogledd, 22ain o fis Tachwedd- lleoliad i'w gadarnhau (os nad oes digon o ddiddordeb i gynnal dwy sesiwn arwahan bydd un sesiwn yn y canolbarth yn cael ei gynnig)

Cyfarfod Swyddogion Maes: Aberystwyth Dydd Mawrth 24ain o Ionawr 2017, lleoliad i'w gadarnhau.

Diwrnodiau Hyfforddi Rhanbarthol Swyddogion Maes: 3 diwrnod rhanbarthol, bydd cyfle i Brif Swyddogion fewnbynnu i'r hyn hoffent ei weld yn y sesiynau yma, ond ar hyn o bryd rhai o'r pynciau yn cynnwys Enghreifftiau o Arfer Dda, Gweithio gyda Gwirfoddolwyr, Marchnata, Mesur Canlyniadau.

De Ddwyrain: Dydd Llun 13eg o fis Chwefror, lleoliad i'w gadarnhau

De Orllewin: Dydd Mawrth 14eg o fis Chwefror, lleoliad i'w gadarnhau

Gogledd: Dydd Iau 16eg o fis Chwefror, lleoliad i'w gadarnhau